# LLAWDDEN (neu IEUAN LLAWDDEN) (fl. 1450), cywyddwr yn canu o tua 1450 hyd 1480

**Enw:** Llawdden
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cywyddwr
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Mary Gwendoline Ellis

Brodor o Lwchwr ydoedd, fel y dengys ei gywydd i Ieuan Gwyn ap Gwilym Fwyaf, ond adnabyddid ef fel ' Llawdden o Fachynlleth.' Canai yn bennaf i deuluoedd Thomas ap Rosier o Hergest, a Phylip ap Rhys a Maredudd Fychan o Faelienydd. Daeth i'r amlwg yn eisteddfod Caerfyrddin, 1451, am gyhuddo Gruffydd ap Nicolas o dderbyn gwobr am roi'r gadair i Ddafydd ab Edmwnd. Ceir ei waith yn llawysgrifau'r 16eg a'r 17eg ganrif. Y mae traddodiad iddo gael ei gladdu yn Llanuwchllyn.

## Awdur

**Mary Gwendoline Ellis**

## Ffynonellau

'Barddoniaeth Llawdden a Rhys Nanmor,' sef traethawd M.A. gan Mary Headley, 1938, yn Ll.G.C

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Llawdden

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q6661930

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu